# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0369(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mawrth 2008

**At Jonathan Morgan:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Chwefror, addewais ysgrifennu atoch am y pryderon lleol ynghylch creu'r pwll gwanhau arfaethedig yng Nghaeau Twmpath, Rhiwbeina, mewn perthynas â'r gwaith i ehangu'r M4 rhwng Cas-bach a Coryton.

Pan gyhoeddwyd Gorchmynion drafft ar gyfer y cynllun yng Ngwanwyn 2006, gwrthwynebodd Ymgyrch Cadwraeth Caeau Twmpath gynigion i leoli pwll gwanhau yng Nghaeau Twmpath. Trafodwyd y gwrthwynebiad hwn yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn nes ymlaen y flwyddyn honno a daeth yr Arolygydd i'r casgliad bod cyfiawnhad dros leoli'r pwll yno. Ond roedd yn cydnabod bod camau y gellid eu cymryd i leihau effaith y pwll.

Ers dechrau 2007, mae cynllun y pwll wedi'i addasu ac mae wedi'i wneud yn llai. Hefyd mae'r tirlunio cysylltiedig wedi'i ddatblygu i leihau'r effaith. Drwy gydol y cyfnod hwn mae swyddogion Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn gohebu ac yn trafod gyda swyddogion yr Ymgyrch Cadwraeth. Yn anffodus, nid ydynt wedi llwyddo i ddod i gytundeb â nhw gan wneud yr hyn y maent yn ei ddymuno ac ar yr un pryd gadw at y cynllun.

Erbyn hyn mae'n rhaid i'r gwaith gael ei wneud i adeiladu'r rhan hon o'r M4 gan y byddai oedi yn arwain at gostau ychwanegol, diangen. Mae'r swyddogion yn hapus eu bod wedi bodloni gofynion yr Arolygydd i gydgysylltu â'r Ymgyrch Cadwraeth a phenderfynu ar ddull mwy dymunol o ddatrys y broblem, ac maent wedi ysgrifennu at swyddogion yr Ymgyrch yn esbonio hyn.